**<u>Technegydd Theatr Diwydiannau Creadigol (Prentisiaeth)</u>**
**<u>Theatr Clwyd, Yr Wyddgrug, Gogledd Cymru</u>**
**<u>Disgrifiad Swydd</u>**

Graddfa: OP2 (£24,695 y flwyddyn) Yn gyfrifol
am: Amherthnasol Yn atebol i:
Rheolwr Technegol y Lleoliad Mentor: Cyfarwyddwr
Cynhyrchu

---

**Pwrpas y Swydd**

Datblygu sgiliau a gwybodaeth ymarferol ym mhob agwedd ar theatr dechnegol drwy weithio fel rhan o dimau Technegol y Lleoliad yn Theatr Clwyd. Wedi'i leoli yn ein tŷ cynhyrchu cenedlaethol enwog yng Ngogledd Cymru, bydd y Technegydd Theatr Diwydiannau Creadigol yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau technegol o ansawdd uchel ar gyfer cynyrchiadau gwadd a chynyrchiadau mewnol. O dan oruchwyliaeth staff profiadol, mae'r brentisiaeth hon yn cynnig dysgu a datblygu strwythuredig a phrofiad ymarferol mewn Goleuo, Sain a Chlyweledol, a Llwyfan.

---

**Cyfrifoldebau Allweddol**

**Hyfforddiant a Datblygiad**

- Cymryd rhan mewn hyfforddiant strwythuredig ar draws disgyblaethau technegol fel rhan o raglen brentisiaeth yn Theatr Clwyd.
- Dysgu gan dechnegwyr a goruchwylwyr profiadol mewn amgylchedd cefnogol a chynhwysol i feithrin gwybodaeth a sgiliau sy'n berthnasol i'r diwydiant.
- Cyfranogiad gweithredol mewn cyfleoedd dysgu a datblygu ar-lein ac wyneb yn wyneb a ddarperir gan sefydliadau partner Sefydliad Mackintosh a Choleg Chichester.

**Cefnogaeth Ymarferol**

- Ymgymryd â gwaith ymarferol mewn perthynas â symud cynhyrchiad i mewn, ffitio, tynnu i lawr a symud cynhyrchiad allan gan gynnwys cydosod, rigio, addasu a defnyddio golygfeydd, props, offer rigio a chodi, offer goleuo a sain ac effeithiau arbennig.
- Helpu gyda gweithrediadau trin â llaw fel llwytho a dadlwytho offer o gerbydau teithiol a chynhyrchu, neu gludo offer rhwng ein mannau storio a'n safleoedd perfformio.

- Cefnogi gweithrediadau technegol yn ystod perfformiadau byw, fel sbotolau symudol neu waith criw cefn llwyfan, dan arweiniad.
- Ennill sgiliau a phrofiad mewn disgyblaethau creu theatr arbenigol fel LX, Sain a Chlyweledol drwy gefnogi cynyrchiadau Theatr Clwyd.
- Helpu i gynnal a chadw offer technegol y theatr ac adrodd am unrhyw broblemau i Ddirprwy Reolwyr Technegol y Lleoliad.

**Iechyd a Diogelwch**

- Cadw at yr holl reoliadau iechyd a diogelwch wrth weithio yn Theatr Clwyd a mynychu sesiynau hyfforddiant diogelwch gofynnol.
- Cyfrannu at gynnal mannau gwaith diogel a thaclus ar draws yr holl feysydd technegol a sicrhau bod unrhyw beryglon posibl yn cael eu gwneud yn ddiogel cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol bosibl.
- Helpu i sicrhau bod yr holl offer trydanol arbenigol yn cael ei gau i lawr yn gywir ar ddiwedd pob diwrnod gwaith.
- Cymryd rhan mewn gweithdrefnau brys a chynorthwyo gyda symud staff a chynulleidfaoedd allan o’r adeilad yn ddiogel pan fo angen.

**Gwaith Tîm ac Agwedd**

- Gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn y timau Technegol, Cynhyrchu a Blaen y Tŷ yn Theatr Clwyd.
- Cynnal agwedd gadarnhaol a phroffesiynol a chynnig safon uchel o wasanaeth.
- Dangos brwdfrydedd, menter, a pharodrwydd mawr i ddysgu sgiliau newydd.
- Cyflawni unrhyw ddyletswyddau rhesymol eraill yn ôl y gofyn gan Reolwr Technegol y Lleoliad, Dirprwy Reolwyr Technegol y Lleoliad neu unrhyw staff goruchwylio eraill (Cynhyrchu neu Gynhyrchu Teithiol).

---

**Manyleb Person**

**Hanfodol**

- Bod yn 18 oed erbyn i'r gyflogaeth ddechrau a bod â Gradd 4 neu uwch mewn Mathemateg a Saesneg.
- Rhywfaint o brofiad theatrig a gwybodaeth o'r ysgol, sefydliad addysg uwch, lleoliad neu adrannau technegol cysylltiedig.
- Diddordeb gwirioneddol mewn gweithio mewn theatr dechnegol, crefftau cefn llwyfan a'r celfyddydau perfformio.
- Dyhead i ddysgu ac ymgymryd â heriau newydd mewn amgylchedd ymarferol.
- Sgiliau cyfathrebu a gwaith tîm cadarn.
- Sgiliau cyfrifiadurol sylfaenol da.
- Dibynadwyedd a synnwyr trefnu da.

- Parodrwydd i weithio oriau hyblyg, gan gynnwys gyda'r nos, penwythnosau a gwyliau.
- Gallu corfforol i gyflawni tasgau â llaw a gweithio ar uchder pan fo angen.

**Dymunol**

- BTEC / UAL mewn Cynhyrchu / Celfyddydau Perfformio.
- Diddordeb mewn neu wybodaeth am oleuo, sain, clyweledol neu reoli llwyfan.
- Dealltwriaeth sylfaenol o arferion iechyd a diogelwch mewn amgylchedd technegol.
- Sgiliau iaith Gymraeg neu barodrwydd i ddysgu.
- Trwydded yrru lawn y DU.